CONWY C.B.C
02 OCT 2019
FINANCE DEPT.

7708.29208-29210

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

## Strategaeth a Ffefrir: **Ffurflen Ymgynghori**

**Hoffem dderbyn eich sylwadau drwy wefan y Cyngor yn www.conwy.gov.uk/gpcs/ymgynghoriadau gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein. Mae defnyddio'r ffurflen ar-lein yn sicrhau bod eich sylwadau yn cael eu cofrestru a'ch bod chi'n derbyn diweddariadau.**

Mae ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eisiau clywed eich barn chi am Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer 2018 – 2033. Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i chefnogi gan 12 Papur testun a 47 Papur Cefndir. Rydym ni'n ymgynghori ynghylch y ddogfen hon o **29/07/2019** tan **20/09/2019**. Mae'r holl ddogfennau ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor a gellir archwilio copïau ohonynt yn ystod oriau agor arferol swyddfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor.

Ar ôl i chi orffen llenwi'r ffurflen, dychwelwch hi i:

Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN
E-bost: cdll.ldp@conwy.gov.uk
Gwefan: www.conwy.gov.uk/cdlln

Os hoffech chi ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio strategol ar cdll.ldp@conwy.gov.uk neu ffoniwch 01492 575461.

**Mae'r holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu cyhoeddi a'u hadrodd i'r Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad.**

**Os oes angen rhagor o le arnoch chi, defnyddiwch bapur arall.**
**Ni fyddwn yn datgelu eich manylion cyswllt i drydydd parti, ond byddwn yn eu defnyddio at ddibenion proses Cynllun Datblygu Lleol Conwy. Bydd eich enw, eich sylwadau a'ch tref/dinas yn cael eu cyhoeddi. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, ni fyddwn yn datgelu'ch cyfeiriad na'ch e-bost.**

**Weithiau fe ddefnyddir deisebau gan grwpiau i gynnig eu barn am fater. Dylai pob tudalen o'r ddeiseb nodi pwrpas y ddeiseb yn glir yn ogystal ag enw cyswllt/cyfeiriad/e-bost. Byddwn yn anfon unrhyw ohebiaeth at y cyswllt hwn; ni fyddwn yn anfon cydnabyddiaethau unigol at bawb sydd wedi llofnodi'r ddeiseb.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Manylion Cyswllt a Sylwadau Cryno**

| | **Manylion Personol** | **Manylion yr Asiant (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|
| Enw: | Eirlys Edwards . Behi | |
| Sefydliad (os yn berthnasol): | | |
| Cyfeiriad: | Bron Y Gan<br>Ffordd Y Dyffryn<br>Llanfairfechan | |
| Cod post: | LL33 0SE | |
| Rhif Ffôn: | | |
| E-bost: | [redacted] | |

| | |
|---|---|
| Hoffech chi dderbyn gwybodaeth am baratoadau'r Cynllun? | Ydw. |
| Dull cysylltu a ffefrir: | e bost |
| Hoffech chi dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg? | Cymraeg. |

Darparwch grynodeb o'ch sylwadau isod (hyd at 100 gair). Mae'n bwysig eich bod yn darparu crynodeb er mwyn cofrestru'ch sylwadau.

**Crynodeb o'ch sylwadau (hyd at 100 gair):**

Gwneud gwelliannau gyntaf i gynnal y gymuned cyn adeiladu mwy o dai.
Fe fyddai swyddi yn y pentref wedi bod yn fonws. Oes angen 400+ o dai yma?

Nid rwyf wedi deilyn penawdau y tudalenau.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

## Strategaeth a Ffefrir: Gweledigaeth ac Amcanion

**Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i llunio ar sail tystiolaeth a gasglwyd ac ar ôl deall y materion sy'n effeithio ar Gonwy. Mae'r rhain wedi'u defnyddio i greu gweledigaeth newydd a 15 o amcanion.**

Oes gennych chi unrhyw sylw am y weledigaeth a'r amcanion arfaethedig? Nodwch eich sylwadau isod.

Teimlaf mai twyll ydyw hwn a bod penderfyniadau wedi eu gwneud yn barod. Fydd y datblygwyr a'r Cyngor yn wir cymryd sylw o farn pobl yr ardaloedd hyn?

Mae angen swyddi a tai. Ond pam cyn gymaint o dai yma?

Dylai'r ymgynghoriadau hyn eu gwneud gan y Cyngor cyn rhoi caniatad a cyn i'r tir gael eu gwerthu.

Braidd yn hwyr iawn yn y dydd i ofyn am farn pobl.

Sut fydd y datblygwyr a'r Cyngor yn gallu plesio y rhai sydd o blaid a'r rhai sydd yn erbyn? A fydd cyfaddawd?

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

## Strategaeth a Ffefrir: **Lefel Twf Arfaethedig**

**Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn darparu ar gyfer lefel twf sy'n cynnwys 12-14 ha o dir cyflogaeth i greu 1800 o swyddi newydd. Cefnogir hyn gan dir ar gyfer 5,150 o dai newydd.**

Oes gennych chi unrhyw sylw am y lefelau twf arfaethedig?
Nodwch eich sylwadau isod.

Ddim yn sicr sut fydd y swyddi newydd yn cael eu creu.
Pa fath o swyddi?
Ydyn nhw yn bendant yn dod i'r ardal neu dim ond gobaith ydi hyn?

Ddyla y gwaith ddim dod gyntaf ac wedyn adeiladu tai fel bo'r angen?

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

## Strategaeth a Ffefrir: **Y Strategaeth Ofodol Arfaethedig**

**Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn edrych ar ddatblygu'r Aneddiadau trefol mwy cynaliadwy sydd â gwasanaethau a phentrefi Haen 1 o fewn Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol a Chanolfannau Gwasanaeth Allweddol o fewn Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig. Bydd twf lleol ac arallgyfeirio mwy cyfyngedig yn cael ei hyrwyddo mewn aneddiadau gwasanaethau llai. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cynnig creu Ardal Adfywio a Gwella Dwyreiniol newydd i gydnabod y cyfyngiadau lefel uchel a geir (e.e. llifogydd) yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol.**

Oes gennych chi unrhyw sylw am y strategaeth ofodol arfaethedig? Nodwch eich sylwadau isod.

- Dyla gwelliannau gael eu gwneud ar adeiladau ar gymaint o dai newydd.

- Pam dros 400 o dai yn Llanfairfechan? Oes wir angen cymaint a hynny i bobl leol? Neu am atynnu pobl o tu allan i'r ardal ydi'r nôd?

- Fydd y tai newydd yn rhai 'gwyrdd'?

- A'i 'Sweetener' yw cynllun adeiladu ysgol newydd?


cario mlaen trosodd ⇒

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Polisïau Strategol**

**Prif nod y Strategaeth a Ffefrir yw cyfrannu at Fannau Cynaliadwy yng Nghonwy. Cefnogir hyn gan bedair adran drosfwaol a pholisïau strategol drafft fel y nodir yn y diagram isod.**



Oes gennych chi unrhyw sylw am y polisïau strategol arfaethedig? Nodwch eich sylwadau isod.

- I sicrhau bod y iaith Gymraeg yn cael ei hybu – beth am ysgol Gymraeg? Fydd plant mewnfudwyr di-Gymraeg yn cael y cyfle gorau i ddysgu y iaith felly. A, fydd gweithwyr y dyfodol yn ddwy-ieithog. (Mae Cyngor Conwy yn hoff iawn o gael Staff dwyieithog yn tydi??)
- Beth fydd yn digwydd i adeiladau yr hen ysgolion?

A ddylid cynnwys unrhyw bolisi arall? Nodwch eich sylwadau isod.

- Mae pryder yn barod ynglŷn a atynnu meddygon teulu i'r pentref. Sut fydd hyn yn gwella efo mwy o bobl yn byw yn y pentref? Mwy o bobl a dim digon o feddygon. Beth fydd y Cyngor (tref a Conwy) yn gallu wneud am hyn?
- Mwy o bobl – mwy o wastraff. Fydd y cyngor yn gallu cynnal hyn?
- Mwy o bobl – mwy o geir – mwy o lygredd

cario mlaen trosodd →

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Strategaeth a Ffefrir: **Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd**

Oes gennych chi unrhyw sylw am yr Arfarniad o Gynaliadwyedd? Ceir fersiynau cryno ar wefan y Cyngor. Nodwch eich sylwadau isod.

- Fydd dim arian Ewrop ar ôl Brexit. Sut fydd llywodraeth Cymru / Cyngor yn ariannu cynnal y prosiectau newydd?

- Pam dim swyddi yn dod i Lanfairfechan? Creu ardal llawer iawn mwy maestrefol yw'r nôd?

Oes gennych chi unrhyw sylw am yr Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd? Nodwch eich sylwadau isod.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol**

Os hoffech chi wneud sylw ar y Safleoedd Ymgeisiol arfaethedig, gwnewch hynny isod. **Dylai pob sylw gynnwys cyfeirnod y safle dan sylw.**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

Strategaeth a Ffefrir: **Unrhyw Sylw Arall**

Oes gennych chi unrhyw sylw arall yr hoffech chi ei wneud ar y Strategaeth a Ffefrir? Nodwch eich sylwadau isod.

## Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033

## Strategaeth a Ffefrir

---

Diolch i chi am eich sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu arnoch chi angen cymorth gydag unrhyw beth, mae croeso i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar: 01492 575461 neu cdll.ldp@conwy.gov.uk

**Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am y mannau y gallwch chi archwilio'r Strategaeth a Ffefrir ac am y sesiynau galw heibio a gynhelir yn y Fwrdeistref Sirol.**

Dylech anfon eich sylwadau cyn 5pm ar **20/09/2019**.

**Mae'n bosibl na fyddwn yn ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn.**